O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2025 Rhif 654 (Cy. 109)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffyrdd yr A489 a'r A483 (Ffordd Osgoi'r Drenewydd, Powys) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2025

Gwnaed	*4 Mehefin 2025*
Yn dod i rym	*13 Mehefin 2025*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn o gefnffordd yr A489 a'r darn perthnasol o gefnffordd yr A483, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffyrdd neu gerllaw iddynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A489 a'r A483 (Ffordd Osgoi'r Drenewydd, Powys) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2025 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 13 Mehefin 2025.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr "y cefnffyrdd" ("*the trunk roads*") yw cefnffordd yr A489 y Drenewydd i Aberystwyth a chefnffordd yr A483 Abertawe i Fanceinion;

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys, mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn neu i gael mynediad i eiddo priodol;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 19:00 o'r gloch ar 13 Mehefin 2025 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith yn barhaol.

Gwaharddiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Cymhwyso

6. Nid yw'r gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod para'r Gorchymyn hwn

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 4 Mehefin 2025

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN

Y darn o gefnffordd yr A489 o'r enw Ffordd Osgoi'r Drenewydd, Powys sy'n ymestyn o ochr ddwyreiniol Cylchfan David Davies hyd at ochr orllewinol Cylchfan Laura Ashley.

Y darn o gefnffordd yr A483 o'r enw Ffordd Osgoi'r Drenewydd, Powys sy'n ymestyn o ochr ogledd-ddwyreiniol Cylchfan Laura Ashley hyd at ochr dde-orllewinol Cylchfan Pryce Jones.

Y darn o gefnffordd yr A483 o'r enw Ffordd Osgoi'r Drenewydd, Powys sy'n ymestyn o ochr ogledd-ddwyreiniol Cylchfan Pryce Jones hyd at ochr dde-orllewinol Cylchfan Robert Owen.